512.

# GALAR-GAN

[illegible] FFADWRIAETH AM Y

# DDAMWAIN ARSWYDUS

A GYMMERODD LE YN

# Mhyllau Bedwellti,

## Neu Byllau Newydd Tredegar,

*Boreu Dydd Gwener, Mehefin* 16eg, 1865,

[Pr]yd y taniodd y Damp ac y collodd 26ain eu bywydau.

---

*Enwau y rhai a gollasant eu bywydau:—*

Thomas Meredith, Troedrhiwgwaer, 51 oed, gwraig ag un plentyn. Morgan Jones, Troedrhiwgwaer, 18 oed. William Allen, Duke Street, 28 oed, gwraig ag un plentyn. John Jones, Georgetown, 35 oed, gwraig a dau o blant. David Beynon, Georgetown, 25 oed, o Benycae. David Rees, High Street, 17 oed. Thomas Thomas, Georgetown, 31 oed, gwraig a 4 o blant. Daniel Jones, Penycae, priod, 58 oed. Edmund Morgan, Market Street, 12 oed. Thos. Morgan, (ei frawd) 15 oed. Thomas Stead, priod, 31 oed. William Stead, 19 oed. Thomas James, Georgetown, 30 oed, gwraig a 4 o blant. David Price, Georgetown, 24 oed. Charles Wedlock, pyllau newydd, 22 oed. Thomas Wedlock, (ei frawd) 13 oed. Richard Jenkins, Cinder Tips, 51 oed, gwraig a 4 o blant. Phillip Jenkins, (ei fab, 12 oed. Thomas Williams, Mount Street, 21 oed.

Tbomas Richards, Transport Row, 16 oed. George Carter, Cinder Tip, 52 oed, [illegible]aig ag 1 plentyn. William Carter, (ei fab) 17 oed. [illegible]vid Jones, George[illegible]n, 4[illegible] oed, gwraig a 4 o [illegible]lant. J[illegible] Jones, (ei fab) 1[illegible] oed. Lewis Lewis, pyllau newydd, [illegible]d, gwraig a 5 o [illegible]nt. Edmund Watkins, pyllau newydd.

*Cafodd y personau canlynol eu llosgi yn ddrwg.*

Francis Thomas, pyllan newydd. John Lewis, pyllau newydd. Lewis Williams, Lower Farm.

De'wch gyfeillion mwyn amynedd,
Traethaf hanes damwain rhyfedd ;
Achos hon y collodd llawer
Eu bywydau 'ngwaith Tredegar.

Ar yr unfed dydd ar bymtheg
O Fehefin oedd yr adeg ;
Deunaw cant a phump a thrigain
Oedd oedran Crist pan bu y ddamwain.

Y Colliers aethant mewn modd gwrol,
I'r gwaith y boreu fel arferol ;
Heb neb yn meddwl y pryd hyny
Fod un drwg i'w goddiweddu.

Ar ol iddynt dd[illegible]hreu gweithio,
Y damp echryslon ddarfu danio ;
A'r Colliers oedd mewn cyflwr caled
Heb le i ymorol am ymwaered.

Tân oedd [illegible] eu hamgylchynu,
Mwg a sulpher wedi [illegible] ;

X2CS 2 35157

Pob gobeithion wedi darfod,
A nerthoedd natur yn ymddatod.

Pwy all ddyrnad eu trallodion,
Pan oedd tân yn rhwygo'r eigion,
A'r Colliers oedd mewn gwael sefyllfa
Heb le i ffoi am amddiffynfa.

Pan ymdaenodd y wybodaeth,
Casglodd cannoedd o'r gym'dogaeth,
I ben y pwll yn ewyllysgar,
Er eu bod yn rhy ddiweddar.

Llef y gwragedd oedd yn ddigon
I ddryllio teimlad unrhyw galon ;
A'r plant yn gwaeddu gyda galar,
Collasom ni ein tadau hawddgar.

Rhai am frodyr sydd yn cwyno,
Rhai am blant sy'n dirfawr wylo,
Llawer sydd yn colli dagrau,
Am gyfeillion a pherthynasau.

Y dynion oedd yn ewyllysgar,
Yn codi'r cyrff o eigion daear ;
'Does neb yn cofio y fath brudd-der,
Erioed o fewn i gwm Tredegar.

Myn'd y boreu'n iach a gwrol,
A'u cario 'n ol yr hwyr yn farwol
Rhybudd etto'i fod yn barod;
Cyn daw angeu i'n cyfarfod.

Einioes dyn sydd gyfnewidiol,
Heddyw'n fyw—yfory'n farwol,
Heddyw'n rhodio mewn anrhydedd,
Yfory yn y bedd yn gorwedd.

Dydd Llun canlynol, gyda galar,
Eu cyrff a roddwyd yn y ddaear,
Hyd foreu dydd yr adgyfodiad,
Nes rhydd yr angel uchel floeddiad.

Duw'n fo'n cynnorthwyo'r gweddwon,
A'r amddifaid mewn trallodion;
Rhoi hyder arno ym mhob adfyd,
Mae ef yn unol a'i addewid.

Y rhai a gawsant waredigaeth,
Fo'n clodfori Duw Rhagluniaeth,
Am iddo gadw eu bywydau,
Pan oedd y lleill yn ngafael angeu.

Gweddiwn ninnau hwyr a boreu,
Na chlywom son am fath ddamweiniau,
A cheisiwn fod yn buredd barod,
Cyn bydd Mab y Dyn yn dyfod.

DEWI MEDI.

Argraffwyd gan D. J. Thomas, Aberdar.